OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 513 (Cy. 159)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Pont Abraham i Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin), Cefnffordd yr A40 (Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin i Abergwaun, Sir Benfro), Cefnffordd yr A477 (Sanclêr, Sir Gaerfyrddin i Ddoc Penfro, Sir Benfro) a Chefnffordd yr A4076 (Hwlffordd i Aberdaugleddau, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *15 Ebrill 2016* |
| *Yn dod i rym* | *20 Ebrill 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A48 a'r A40), Cefnffordd Sanclêr i Ddoc Penfro (yr A477) a Chefnffordd Hwlffordd i Aberdaugleddau (yr A4076) ("y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd y tebygolrwydd y byddai perygl i'r cyhoedd o ganlyniad i gludo llwythi anwahanadwy annormal.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.

galluogi arall(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Ebrill 2016. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Pont Abraham i Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin), Cefnffordd yr A40 (Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin i Abergwaun, Sir Benfro), Cefnffordd yr A477 (Sanclêr, Sir Gaerfyrddin i Ddoc Penfro, Sir Benfro) a Chefnffordd yr A4076 (Hwlffordd i Aberdaugleddau, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith o gludo'r llwythi anwahanadwy annormal sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y cludo" ("*transportation period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 20 Ebrill 2016 ac sy'n dod i ben pan fydd y gwaith o symud y llwythi anwahanadwy annormal wedi ei gwblhau;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" ("*the lengths of the trunk roads*") yw'r darnau o brif gerbytffyrdd a chylchfannau Cefnffyrdd yr A48, yr A40, yr A477 a'r A4076 yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### Gwaharddiad

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cludo, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

### Cymhwyso

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

---

(**1**) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 15 Ebrill 2016

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau Llywodraeth Cymru

# ATODLEN 1

## CEFNFFORDD YR A48

Y darn o gefnffordd yr A48 sy’n ymestyn o’i chyffordd â thraffordd yr M4 wrth brif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Pont Abraham i gyfeiriad y gorllewin hyd at ei chyffordd â chefnffordd yr A40 wrth brif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Pen-sarn, Sir Gaerfyrddin gan gynnwys prif gerbytffyrdd cylchredol Cylchfannau Pont Abraham a Cross Hands.

## CEFNFFORDD YR A40

**1.** Y darn o gefnffordd yr A40 sy’n ymestyn o’i chyffordd â chefnffordd yr A48 wrth brif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Pen-sarn, Sir Gaerfyrddin i gyfeiriad y gorllewin hyd at Hwlffordd, Sir Benfro ac i gyfeiriad y gogledd hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Wdig, Sir Benfro gan gynnwys prif gerbytffyrdd cylchredol Cylchfannau Pen-sarn, Pont Lesneven, Sanclêr, Heol Llanboidy/ Blackbridge (Hendy-gwyn ar Daf), Penblewin, Robeston Wathen, Pont Canaston, Scotchwell/ Ffordd Aberteifi/ Llwynhelyg (Hwlffordd), Manorowen, Windyhall ac Wdig.

**2.** Y darn o gefnffordd yr A40 sy’n ymestyn o’i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Scotchwell i gyfeiriad y de hyd at ei chyffordd â chefnffordd yr A4076 wrth brif gerbytffordd gylchredol cylchfan Salutation Square gan gynnwys prif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Salutation Square, Sir Benfro.

## CEFNFFORDD YR A477

Y darn o gefnffordd yr A477 sy’n ymestyn o’i chyffordd â chefnffordd yr A40 wrth brif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin i gyfeirad y de-orllewin hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Waterloo, Doc Penfro, Sir Benfro gan gynnwys prif gerbytffyrdd cylchredol Cylchfannau Cilgeti, Sageston, Caeriw a Waterloo.

## CEFNFFORDD YR A4076

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy’n ymestyn o’i chyffordd â chefnffordd yr A40 wrth brif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Salutation Square i gyfeiriad y de hyd at Celtic Garage, Aberdaugleddau, Sir Benfro gan gynnwys prif gerbytffyrdd cylchredol Cylchfannau Pont Fadlen, Vine Road/Sunnycroft (Johnston) a Phont Victoria (Aberdaugleddau).